ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

# Cylchlythyr Cwricwlwm I Gymru

## Medi 2017
## Rhifyn: 08

**Croeso**

Lansiwyd 'Addysg yng Nghymru – ein cenhadaeth genedlaethol' gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, ar 26 Medi . Mae'n disgrifio sut  y bydd y diwygiadau i addysg yng Nghymru yn cefnogi'r  broses o gyflwyno cwricwlwm newydd er mwyn inni allu sicrhau'r deilliannau yr ydym oll am eu gweld ar gyfer ein plant.

Dyma foment o newid i'r cylchlythyr hwn. O hyn allan, bydd yn sôn am yr holl ddiwygiadau sydd ar waith ym maes addysg yng Nghymru er mwyn rhoi darlun cyflawn o'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

Yn y rhifyn arbennig hwn:

**'Addysg yng Nghymru – ein cenhadaeth genedlaethol'**

Y ddogfen strategaeth lawn sy'n nodi sut a phryd y bydd pethau'n digwydd, o ran datblygu'r cwricwlwm, dysgu proffesiynol, safonau addysgu, asesu ac atebolrwydd, a diwygiadau i addysg gynhwysol.

**Araith Lansio gan yr Ysgrifennydd Cabinet**

Mae Kirsty Williams yn frwdfrydig iawn dros y diwygiadau hyn, ac yn awyddus i fwrw ymlaen mewn ffordd gadarnhaol a chefnogol. Mae'n esbonio ei safbwynt yn eglur yn yr araith hon Gallwch ei gwylio drwy periscope yn https://www.pscp.tv/w/1OyKArDvZOOGb. Caiff ei chyflwyno gan y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Owen Evans.

**12 peth sydd angen ichi eu gwybod**

I arbed amser, mae'r cwestiynau ac atebion hyn yn esbonio'r diwygiadau a sut y maent yn cyd-blethu.